



Croeso i Gyfres Ddarlithoedd Busnes Safon Uwch Ysgol Fusnes Aberystwyth



THE  TIMES
THE SUNDAY TIMES
**CANLLAW
PRIFYSGOLION
DA
2019**

PRIFYSGOL
Y FLWYDDYN AR
GYFER ANSAWDD
Y DYSGU

THE  TIMES
THE SUNDAY TIMES
**GOOD
UNIVERSITY
GUIDE
2019**

UNIVERSITY
OF THE YEAR
FOR TEACHING
QUALITY

Camau Datblygu Cynnyrch


Dr Ian Harris

Cydlynnydd y Cynllun Gradd:
Marchnata/Marchnata Digidol

Prosesau sy'n cefnogi Cyflwyno Cynhyrchion Newydd

- Er mwyn galluogi gwaith datblygu effeithiol sy'n cydfynd â'r farchnad, mae angen i sefydliadau wreiddio cyfres o brosesau adwyol.
- Meddyliwch am dîm chwaraeon, er enghraifft Pêldroed. O oedran cynnar iawn caiff talentau eu canfod, eu llofnodi, eu datblygu, eu trosglwyddo i'r ystod oedran nesaf... Os aiff y camau'n dda, byddan nhw'n chwarae yn yr Uwchgynghair ...
- Mae dod o hyd i gynnyrch da i'r farchnad yn galw am 'adwyo' tebyg


Cynhyrchion




Prosesau Cam/Adwy

- Mae llawer o fersiynau o'r rhain ar gael
- Bydd pob diwydiant yn defnyddio cysyniad tebyg, ond bydd y nifer o gamau/cyfnodau'n amrywio gan ddibynnu ar faint/cymhlethdod y cwmni neu'r diwydiant
- Nesaf fe welwch ddau fersiwn. Y cyntaf yw'r hyn y byddwch am ei gofio ar gyfer asesiad; bydd y llall yn gadael i chi ddeall y broses yn fwy llawn

Rheoli'r Broses Ddatblygu





- Fel Rheolwr Marchnata, chi sy'n:
 - Rheoli'r camau Cynhyrchu Syniad a Sgrinio
 - Rheoli'r gweithgareddau sy'n symud y syniad o'r cysyniad hyd at gynhyrchu
 - Rheoli'r broses NPI yn y farchnad

Cystadleuaeth ar sail amser

- Mae busnes cyfoes yn gysylltiedig â “chyrraedd y farchnad” yn gyflym
- Pam ydych chi’n meddwl am Uber yn hytrach na LYFT ar gyfer trafnidiaeth bersonol?
- Mae defnyddwyr hyper-gysylltiedig yn darganfod “Cynhyrchion a Brandiau Newydd” yn gyflym iawn
- Felly, er bod y broses ddatblygu a ddisgrifir uchod yn llinellol, y gwirionedd yw bod y camau’n aml yn digwydd yn gwbl neu’n rhannol gyfochrog
- E.e. wrth lansio Ffonau/Meddalwedd mae rhywfaint o brofi’n dal i ddigwydd

The screenshot displays the Office Timeline Pro application interface. On the left, a Gantt chart shows project tasks across quarters Q3, Q4, and Q1 2020. The tasks are organized into swimlanes: Delivery (teal), Ops (purple), Risk Mgt (orange), and QoS (yellow). Specific tasks include Consumption Metrics, Iframes, SDK Optimization, Security Policy, Documentation, Equip Docs, Recruit: Round 1, Logs, Risk Training, Access C, Alerting, and Availability Metric. A 'Today' marker is positioned at the start of Q4.

On the right, the 'Data' pane shows a table of tasks with columns for Title, T/M, Start, End, Duration, and Progress. A 'Save' button is highlighted with a red circle and a callout box.

Table Data:

Title	T/M	Start	End	Duration	Progress
Delivery					
System Balancing	T	15/12/2019	15/09/2020	196.5 days	%
Phase 1	M	27/12/2019	27/12/2019	-	%
Phase 2	M	27/03/2020	27/03/2020	-	%
Phase 3	M	05/07/2020	05/07/2020	-	%
Consumption Metrics	T	20/08/2019	23/11/2019	69 days	85%
Offloading	T	18/02/2020	04/04/2020	34 days	%
Perf Check	M	18/06/2020	18/06/2020	-	%
Iframes	M	05/12/2019	05/12/2019	-	%
SDK Optimization	T	29/09/2019	29/01/2020	87.5 days	%
Load Performance	T	01/05/2020	30/07/2020	64.5 days	80%

Summary Statistics:

- 37% Complete
- 21 Tasks
- 7 Milestones
- 1700.5 Days Duration

Gwallau GOLLWNG/MYND

- Mae gwallau GOLLWNG yn digwydd pan fydd y broses yn dewis atal datblygiad yn erbyn y broses
 - Gollyngodd Kodak gysyniad y camera digidol yn y 1970au. Datblygwyd cysyniad, a phrofwyd ei fod yn gweithio. Ond lansiwyd y cynnyrch yn rhy hwyr i gynnal cyfran y farchnad
- Mae gwallau MYND yn digwydd pan ddylid bod wedi atal y syniad/cysyniad/cynnyrch ond parhawyd i fuddsoddi
 - Roedd McDonalds Arch Deluxe yn targedu chwaeth soffistigedig a chostiodd tua \$200 miliwn i McD mewn costau marchnata lansio

Sgrinio Syniadau

- Mae gwallau GOLLWNG yn digwydd pan fydd cwmni'n "gollwng syniad da"
- Mae gwallau MYND yn digwydd pan fydd cwmni'n "rhedeg gyda syniad gwael"

Product success requirements	Relative weight (a)	Product score (b)	Product rating (c = a × b)
Unique or superior product	0.40	0.8	0.32
High performance-to-cost ratio	0.30	0.6	0.18
High marketing euro support	0.20	0.7	0.14
Lack of strong competition	0.10	0.5	0.05
Total	1.00		0.69 ^a

^aRating scale: 0.00–0.30 poor; 0.31–0.60 fair; 0.61–0.80 good. Minimum acceptance rate: 0.61

Cynhyrchu Syniadau

- Mae syniadau i'w canfod ym mhob man:
 - Deillio o restr o anghenion cwsmeriaid NEU restr o broblemau cyfredol gyda'ch cynnyrch/gwasanaeth
 - Staff Gwerthu/Cymorth yn siarad gyda chwsmeriaid bob dydd ac yn clywed adborth/problemau
 - Mae gan y rhan fwyaf o gwmnïau canolig neu fwy alluoedd Ymchwil a Datblygu
 - Bydd sicrhau ansawdd yn y busnes yn canfod gwelliannau cynhyrchu a chynnyrch
 - Mae'r busnes yn gweithio mewn cadwyn ddosbarthu, gyda phartneriaid yn bwydo problemau a chyfleoedd yn ôl
 - Cydweddu ymchwil cwsmeriaid a marchnad â'r uchod

Sgrinio Syniadau

- Mae cynhyrchu syniadau wedi cynnig rhestr o syniadau posibl newydd
- Ond pa syniadau ddylech chi eu hanwybyddu, a pha rai ddylech chi roi amser, arian ac adnoddau i'w datblygu...?
- Mae pob sefydliad yn datblygu set o feini prawf y caiff syniadau eu gwerthuso yn eu herbyn
- Gallai'r meini prawf gynnwys:

- Y gwelliannau cynnyrch mwyaf angenrheidiol
 - Maint sgrin iPhone 6
 - Oes batri iPhone 7
- Manteision i'ch cynulleidfa darged
- Hyfywedd technegol y syniad
 - Gwydr Sapphire ar iPhone 6S
- Lefel a chwmpas yr ymchwil a'r datblygu sydd eu hangen
- Potensial marchnata arfaethedig

Datblygu a Phrofi Cysyniad

- Mae angen datblygu syniadau'n gysyniadau cynnyrch
 - Gellir cywain barn cwsmeriaid o'r cysyniad hwn, a chreu iteriadau o'r cysyniad
- Wrth ddatblygu cysyniad mae'n bosibl pennu'n gywir beth fydd costau rhagfynegiadau tymor byr, canolig a hir
 - Hynny yw gellir eu gweithgynhyrchu a'u cyflenwi
- Grwp ffocws/profi'r Farchnad gyda'r cysyniad, beth maen nhw a beth dydyn nhw ddim yn ei hoffi
 - Pennu sut y gallai darpar gwsmeriaid fabwysiadu'r cysyniad

- Pennu sut y cydweddir y farchnad darged arfaethedig gyda'r adborth o'ch ymchwil sylfaenol
- A oes angen i chi ddiogelu eiddo deallusol; cyn gynted ag y bydd yn mynd allan o'r sefydliad, bydd angen penderfynu hyn
- O ran ei leoli, pennu'r nodweddion neu'r priodoleddau pwysicaf. Efallai na fydd eich cynulleidfa'n rhannu blaenoriaethau'r sefydliad


Dadansoddiad Busnes

- Gyda chanlyniadau llwyddiannus i'r cysyniad, mae'n bryd ailedrych ar y dadansoddiad busnes cychwynnol (a wnaed wrth sgrinio'r syniad)
- Pa bris ddylai'r cynnyrch fod, a pha briodoleddau sy'n werth yr aberth ariannol hwnnw?
- O'i gymharu â chynhyrchion/marchnadoedd sy'n bodoli mae'n bryd amcangyfrif potensial marchnad y cynnyrch – bydd ffigurau gwerthiant y diwydiant a'r sefydliad yn helpu i ragfynegi hyn
- Cyfrifo maint y gwerthiant y gellir ei gyflawni o botensial y farchnad


- Ar y pwynt hwn mae'r sefydliad yn gallu ystyried y canlynol yn llawnach
 - Pwyntiau adennill costau (cofiwch fod hyn yn cynnwys costau sefydlog ac amrywiol)
 - Cyfrifo'r pris gwerthiant isaf ar sail targedau proffidioldeb eich sefydliad e.e. ar gyfer Unilever yn y DU, mae hyn fel arfer yn 23%; ar gyfer Poundland (adwerthwr) y ffin gros yw 60%
 - Pennu cylch oes y cynnyrch, o ffigurau'r sefydliad a'r diwydiant, am faint o flynyddoedd y gallwch ragfynegi refeniw i'r prosiect



**(a) Product-positioning map
(breakfast market)**



**(b) Brand-positioning map
(instant breakfast market)**



Profi (cynnyrch) a marchnata

- O hyn ymlaen, mae'r costau'n codi'n gyflym
 - Datblygu cynnyrch ac arbenigwr proses (ymgynghorwyr); comisiynu ymgynghorwyr; rheolwyr cynnyrch a rhaglen
- Diogelu Eiddo Deallusol
 - Nid yw costau patentau'n uchel iawn yn y DU, ond efallai y bydd angen patentau newydd ar bob tiriogaeth. Ond mae sicrhau a diogelu patentau yn ddrud IAWN
 - [Talodd Samsung dros \\$530 miliwn i Apple yn UDA](#)


- Comisiynu Prototeip
 - Bydd angen adeiladu prototeipiau i amlygu namau a beiau yng nghysyniad y cynnyrch
 - Bydd brasfodelau'n caniatáu iteriadau ar gyfer pecynnu, datblygu, golwg a theimlad y brand
- Perfformiad yn y byd real
 - A yw'n gweithio yn y byd real
 - A yw'n addas i'r diben
 - Grwp ffocws i bennu ymateb o'r farchnad darged
- Gwneud Gwelliannau

1872

PRIFYSGOL



ABERYSTWYTH
UNIVERSITY



Profi (marchnad parhad)

- Ochr yn ochr â Phrofi'r Farchnad
 - Ydy'r Segment, Targed, Lleoli'n gywir
 - Beth yw'r amcanion marchnata
 - Beth yw'r strategaethau marchnata
 - Oes angen tactegau penodol ar gyfer targedau penodol
- Pan fydd hynny'n glir, codeiddio'r uchod i gyd (a mwy) mewn Cynllun Marchnata
- Mae cael y Cynllun Marchnata'n anghywir yn gostus iawn – “New Coke, 1985”

Gweithredu Technegol

- Mae angen cynlluniau i gynhyrchu'r cynnyrch a'i lansio i'r prif farchnadoedd
 - Mae angen adnoddau ar gyfer hyn
 - Mae angen cynlluniau peirianeg (neu gyfatebol) ar gyfer cynhyrchu
 - OEM, Adnodd Cynhyrchu sy'n Bodoli, Adnodd Arbenigol
 - Angen cydweddu, contractio a chychwyn ar weithgareddau cadwyn gyflenwi a chwsmer

Lansio'r Cynnyrch

- Cydweddu'r cynllun marchnata
 - Trefnu gweithgareddau Marchnata Uniongyrchol, Hysbysebu, Cysylltiadau Cyhoeddus
- Cynllunio Gwerthiant
 - Gohebiaeth dosbarthwyr – hyrwyddiadau gwerthu
 - Cwsmeriaid delfrydol, targedau gwerthiant yn ôl mis/chwarter/blwyddyn
- Cynllunio prisio
 - Prisio dod i'r farchnad, prisio premiwm, prisio isafswm gwerthiant

Rheoli'r Broses Datblygu Cysyniad i Strategaeth

- Syniadau Cynnyrch yn dod yn Gysyniadau Cynnyrch
- Cysyniadau Cynnyrch yn cael eu mapio ar Fap Canfyddiadol
- Cysyniadau Cynnyrch yn cael eu mapio ar Fap Lleoli Brand
- Canfyddiad a Brand yn caniatáu i'r cwmni nodi ble mae “gwahaniaethu” ar gael – yn y cyd-destun hwn Caloriau Uchel/Pris Uchel

Syniad Cynnyrch – *Diod Faethlon*

Cysyniad Cynnyrch 1

Babanod

Maeth

Bore

Cysyniad Cynnyrch 2

Plant

Lluniaeth

Prynhawn

Cysyniad Cynnyrch 3

Ardegau

Blas

Unrhyw bryd

...

Oedolion

Egni

Gyda'r nos

...

Diolch Thank you

THE  TIMES
THE SUNDAY TIMES
**CANLLAW
PRIFYSGOLION
DA
2019**

PRIFYSGOL
Y FLWYDDYN AR
GYFER ANSAWDD
Y DYSGU

THE  TIMES
THE SUNDAY TIMES
**GOOD
UNIVERSITY
GUIDE
2019**

UNIVERSITY
OF THE YEAR
FOR TEACHING
QUALITY